**MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH**

Dylid trafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar y cyd â'r Cod Ymddygiad i Aelodau ac mae'n rhan o'r cod moeseg y mae pob Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydymffurfio ag ef.

A minnau'n Aelod Etholedig o Gyngor Rhondda Cynon Taf, rwy'n cytuno i wneud y canlynol:

1. Cynrychioli pobl Rhondda Cynon Taf mewn ffordd deg, heb wahaniaethu. Byddaf yn dangos parch ar bob adeg ac yn ystyried eraill heb ddefnyddio iaith nac ymddwyn mewn ffordd sy'n bwlio[i] eraill.
2. Cydnabod pob mater y mae trigolion y Fwrdeistref Sirol yn tynnu fy sylw atyn nhw ac ymateb yn briodol ac yn amserol ar ôl derbyn gwybodaeth o'r fath, gan sicrhau fy mod i'n gweithredu er budd y trigolion a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.
3. Sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac mewn modd darbodus wrth gyflawni fy nyletswyddau a chyfrifoldebau.
4. Ymgymryd â'm rôl mewn ffordd broffesiynol, boed hynny mewn amgylchedd wyneb yn wyneb neu ar ffurf rithwir, wrth gynrychioli'r Cyngor a'r trigolion rydw i'n eu gwasanaethu.
5. Ymgymryd â'm rôl a'r dyletswyddau cysylltiedig mewn ffordd ddiogel, gan sicrhau fy niogelwch fy hun a diogelwch cydweithwyr a thrigolion, boed hynny mewn amgylchedd wyneb yn wyneb neu ar ffurf rithwir.
6. Hyrwyddo cwrteisi ar-lein ar unrhyw lwyfan ymgysylltu digidol neu gyfrif y cyfryngau cymdeithasol rwy'n ei ddefnyddio, gan ddarparu datganiad o fwriad eglur o ran ymgysylltu mewn modd cwrtais ac agored.
7. Cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor, Rheolau Gweithdrefn a pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn ystod fy amser yn y swydd.
8. Parchu cyfraniadau cydweithwyr, swyddogion a siaradwyr cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd y Cyngor, dangos parch at eich gilydd ni waeth beth fo'ch barn wleidyddol a gweithio gyda'ch gilydd mewn ffordd gadarnhaol er budd cymunedau'r Fwrdeistref Sirol.
9. Diogelu a hyrwyddo cyfleoedd bywyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a chyflawni fy nghyfrifoldebau'n ddiwyd a minnau'n Rhiant Corfforaethol y plant hynny, gan ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
10. Gweithredu'n unol â'r safonau uchaf o ran gonestrwydd wrth gyflawni fy nyletswyddau amrywiol fel Cynghorydd.
11. Glynu wrth y Cod Ymddygiad i Aelodau, parchu'r Cod hwnnw a'r cyngor a chanllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor, gan gynnwys glynu

wrth ddarpariaethau unrhyw Brotocol Penderfynu Lleol a gynigir gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

12. Cefnogi a hyrwyddo dull cynnal busnes y Cyngor mewn ffordd agored a thryloyw a sicrhau nad yw gwybodaeth a roddir i mi mewn amgylchedd cyfrinachol yn cael ei datgelu nac yn cael ei chyhoeddi at sylw'r cyhoedd.

13. Hyrwyddo a chefnogi'r ymrwymiadau hyn trwy arwain a thrwy esiampl, ac ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau neu'n cynnal hyder y cyhoedd.

14. Mynd ati'n rhagweithiol i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i fi, gan gynnwys yr holl hyfforddiant sy'n orfodol yn ôl y Rhaglen Datblygu Aelodau, neu gyfwerth, er mwyn i mi gyflawni fy nyletswyddau fel Cynghorydd.

Drwy lofnodi'r datganiad, cadarnhaf y byddaf yn cyflawni fy nyletswyddau fel yr amlinellir uchod.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Aelod (llythrennau bras)** | WAYNE OWEN |
| **Llofnod yr Aelod** | W Owen |
| **Date** | 08.02.24 |

Ar ôl i chi lofnodi, anfonwch y ffurflen yma at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

[i]Mae modd i fwlio gynnwys ymddygiad cas, bygythiol, maleisus, sarhaus neu ymddygiad sy'n codi cywilydd. Mae'n bosibl y bydd ymddygiad o'r fath yn digwydd unwaith neu'n rhan o batrwm o ymddygiad. Mae bwlio yn ceisio tanseilio unigolyn, neu grŵp o unigolion, yn niweidiol i hyder a gallu unigolyn, ac efallai'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd. Mae modd cyferbynnu hyn â'r heriau dilys y mae modd i Aelod eu gwneud wrth gwestiynu polisi neu graffu ar gyflawniad.